Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

# Cartrefi Gofal - Canllawiau i Bersonau Cofrestredig

Mai 2024

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024 WG50004 ISBN digidol 978-1-83625-114-9

## Cyflwyniad

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran pobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae Deddf 2005 yn nodi pwy all wneud penderfyniadau ar ran rhywun nad oes ganddo alluedd, pryd a sut. Mae'n sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud er budd pennaf y person, a bod y person yn cael ei gynnwys yn y penderfyniad cymaint â phosibl.

Cyflwynwyd y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) fel diwygiad i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a daethant i rym ym mis Ebrill 2009, gan ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefyllfaoedd lle y gall rhywun gael ei amddifadu o'i ryddid yn unol ag ystyr erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae'r trefniadau diogelu yn help i sicrhau y caiff y broses gywir ei defnyddio i ddiogelu hawliau dynol pobl os:

- na fydd ganddynt y gallu i gydsynio i'r trefniadau ar gyfer y gofal sydd ei angen arnynt,
- eu bod dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus
- ac nad ydynt yn rhydd i adael.

Mae'r DoLS o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn caniatáu ar gyfer ffrwyno a chyfyngiadau sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid mewn ysbytai a chartrefi gofal – ond **dim ond os ydynt er lles pennaf unigolyn.**

Mae AGC, ar y cyd ag AGIC, yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar roi'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith yng Nghymru, ar ran Gweinidogion Cymru. Caiff adroddiad monitro blynyddol ei roi gerbron y Senedd a'i gyhoeddi bob blwyddyn.

## Rôl darparwyr cartrefi gofal

Nod deddfwriaeth DoLS yw diogelu pobl mewn cartrefi gofal y gall fod angen iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae'n bwysig bod darparwyr yn deall fframwaith cyfreithiol y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac mae'n rhaid i'r holl reolwyr a'r staff gofal sy'n gweithio iddynt ddeall sut y dylid rhoi hyn ar waith yn ymarferol. Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru adnoddau defnyddiol.
[Deddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau... | Gofal Cymdeithasol Cymru]

Gelwir cartrefi gofal yn 'awdurdodau rheoli.' Gelwir y cyrff sy'n awdurdodi ceisiadau DoLS yn 'gyrff goruchwylio' a rhaid i gartrefi gofal wneud cais i'w hawdurdod lleol am yr awdurdodiad hwnnw. Yng Nghymru, yr awdurdod lleol sy'n awdurdodi yw'r awdurdod lleol lle mae'r unigolyn fel arfer yn byw cyn iddo symud i

fyw yn y cartref gofal. Os byddwch yn gwneud cais am yr awdurdodiad hwnnw i'r awdurdod lleol, rhaid i chi hefyd roi gwybod i AGC drwy eich cyfrif AGC Ar-lein. Gelwir yr hysbysiad hwn yn ‘Anfonwyd cais DoLS at gorff goruchwylio’

Mae tri math o gais DoLS:
**Brys:** Gall cartref gofal neu ysbyty roi awdurdodiad brys iddo'i hun i amddifadu person (y cyfeirir ato fel person perthnasol) o'i ryddid os bydd angen gwneud hynny cyn y gellir cael awdurdodiad safonol. Rhaid iddo wneud cais am awdurdodiad safonol ar yr un pryd [os nad yw eisoes wedi gwneud hynny]. Pan fydd yr awdurdod rheoli wedi rhoi awdurdodiad brys iddo'i hun a'i fod yn gwneud cais am awdurdodiad safonol, rhaid i aseswyr yr awdurdod lleol gwblhau'r asesiad o fewn pum diwrnod i'r cyfarwyddyd.

**Safonol**: Os bydd staff cartref gofal neu staff ysbyty yn cwblhau cais safonol, yna rhaid i'r asesiad sy'n ofynnol ar gyfer awdurdodiad safonol gael ei gwblhau o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr aseswyr gyfarwyddyd gan y corff goruchwylio.

**Pellach:** Pan ddaw awdurdodiad DoLS presennol i ben, a bod yr Awdurdod Rheoli yn dod i'r casgliad bod angen i'r awdurdodiad barhau, dylid gwneud cais am awdurdodiad pellach. Gellir gwneud cais am y rhain 28 diwrnod ymlaen llaw.

## Dyletswyddau o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 a'r canllawiau statudol cysylltiedig yn nodi'r gofynion sydd ar ddarparwyr cofrestredig mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

### Rheoliad 29 – Defnyddio rheolaeth a ffrwyno yn briodol

Canllawiau statudol

- Os nad oes gan unigolyn alluedd meddyliol i gydsynio i'r trefniadau ar gyfer ei ofal a'i gymorth, mae darparwyr gwasanaethau yn dilyn egwyddorion a darpariaethau statudol Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, lle y bo'n briodol.
- Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau y darperir gofal a chymorth er budd pennaf y person a bod awdurdod cyfreithlon ar waith lle bo angen

**Rheoliad 31 Amddifadu o ryddid - Rhaid i unigolyn beidio â chael ei amddifadu o ryddid at ddiben cael gofal a chymorth heb awdurdod cyfreithlon.**

Canllawiau statudol

- Mae darparwyr gwasanaethau yn gweithredu'n unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn ogystal â Chod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005 50 31 bob amser. Rhaid peidio ag amddifadu unigolyn o'i ryddid at ddiben cael gofal a chymorth heb awdurdod cyfreithlon a Chod Ymarfer ychwanegol y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.
- Caiff y staff hyfforddiant ar adegau priodol ac yn unol ag unrhyw newidiadau i ganllawiau a deddfwriaeth er mwyn eu galluogi i ddeall eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu o Ryddid.

Os caiff rhywun mewn cartref gofal ei oruchwylio a'i reoli'n barhaus ac nad yw'n rhydd i adael, a bod ganddo ddiffyg galluedd meddyliol i gydsynio i drefniadau ar gyfer ei ofal a'i driniaeth, dylai darparwyr wneud cais Amddifadu o Ryddid gyda'r awdurdod lleol a rhoi gwybod i AGC fod cais wedi'i wneud.

Gweler **atodlen 3 - Rheoliad 60**

- Hysbysiadau gan ddarparwr y gwasanaeth

Unrhyw gais i gorff goruchwylio mewn perthynas â'r cais Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o ryddid (DoLS).

## Rôl AGC

Er mwyn galluogi AGC i ddiwallu ei ddyletswyddau monitro ac adrodd, bydd yn gwneud y canlynol:

Wrth arolygu cartrefi gofal lle gall fod cyfyngiadau ar ryddid pobl, bydd AGC yn gwneud y canlynol:

- Gofyn am dystiolaeth ynghylch a yw pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid a sut, ac a yw hyn wedi'i awdurdodi
- Siarad â'r bobl am eu profiad
- Siarad â'r staff am eu dealltwriaeth o alluedd meddyliol ac amddifadedd
- Edrych ar ddogfennaeth cynllunio gofal i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r broses awdurdodi
- Gwirio a gaiff ceisiadau pellach eu gwneud pan fydd awdurdodiad DoLS yn dod i ben, lle y bo'n briodol
- Ystyried a oes unrhyw geisiadau wedi'u gwneud ond heb eu hawdurdodi

- Trafod unrhyw faterion heb gael awdurdodiad

Bydd y wybodaeth hon, ynghyd â hysbysiadau o geisiadau a gwybodaeth a gasglwyd gan awdurdodau lleol yn cael eu monitro gan AGC a'u defnyddio i hysbysu ei adroddiad DoLS blynyddol.